



Themau - *Themes*

Ga i eich helpu chi? *May I help you?*

Patrymau Iaith - *Language patterns*

Mae angen ychwanegu'r rhagenwau personol, a'u treigladau, at y berfenw i gyfieithu brawddegau fel hyn.

We need to add the personal pronouns, and their mutations, to the verb to translate sentences like this with verbs.

<i>I love you</i>	Dw i'n dy garu di
<i>He helps me</i>	Mae e'n fy helpu i
<i>We pay them</i>	Dyn ni'n eu talu nhw

Mae hi'n fy nghlywed i	<i>She hears me</i>
dy nghlywed di	<i>She hears you</i>
ei glywed e	<i>She hears him</i>
ei chlywed hi	<i>She hears her</i>
ein clywed ni	<i>She hears us</i>
eich clywed chi	<i>She hears you (plural)</i>
eu clywed nhw	<i>She hears them</i>

Sylwch Note

Os oes arddodiad yn dilyn y ferf fydd dim angen y patrwm yma.

If a preposition follows the verb then this pattern is not followed.

Dw i'n gwrando arnat ti	<i>I listen to you</i>
Dw i'n dy glywed di	<i>I hear you</i>

Tasgau - Tasks

Tasg sain 1 / Audio task 1

Atebwch y cwestiynau hyn.

Answer these questions.

Pam roedd Geraint yn hwyr?

Pam dyw Enid ddim wedi gweld ei eisiau fe?

Pryd mae Geraint yn chwarae golff?

Pryd mae cyfarfod nesa Geraint?

Beth sy'n wahanol am Geraint, yn ôl Enid?

Tasg sain 2 / Audio task 2

Llenwch y grid.

Fill in the grid.

	Person 1	Person 2
Pwy sy'n ffonio?		
Pam?		
Pryd mae'r apwyntiad?		i) ii)
Faint o'r gloch mae'r apwyntiad?		

Sgript Sain 1 - Audio Script 1

- Geraint:** Helo, cariad - dw i adre!
- Enid:** Hiya Geraint - ti'n iawn?
- Geraint:** Mae'n ddrwg gyda fi! Dw i'n hwyr! Roedd y trê'n yn hwyr ac wedyn roedd y gyrrwr tacsï yn hwyr yn fy nghodi i! O! Dw i'n dy garu di, Enid!
- Enid:** Rwyt ti'n edrych wedi blino. Maen nhw'n dy weithio di'n galed yn Llundain.
- Geraint:** O ydyn! Ond maen nhw'n ein talu ni'n dda. Wyt ti wedi gweld fy eisiau i?
- Enid:** Gweld dy eisiau di? Hmmm .. mae Jên wedi bod yn fy ngweld i, mae Delyth wedi fy helpu i i glirio'r atig. Dw i wedi bod yn rhy brysur i weld dy eisiau di, Geraint!
- Geraint:** Dw i wedi gweld dy eisiau di! Mae Llundain yn lle unig iawn.
- Enid:** Ydy, siŵr o fod. Mae rhywun newydd dy ffonio di.
- Geraint:** Fy ffonio i? O, pwy? Ffrind golff, siŵr o fod. Mae gêm gyda ni nos yfory.
- Enid:** Ffrind golff? Falle ... llais merch ...
- Geraint:** O! Tracey, siŵr o fod , yn fy atgoffa i am y cyfarfod bore 'fory.
- Enid:** Yyyy na, dw i'n ei nabod hi. Nid llais Tracey oedd e.
- Geraint:** O! Wyt ti wedi ei chlywed hi o'r blaen?
- Enid:** Na ond mae hi'n siŵr o ffonio eto.
- Geraint:** Ydy, mae'n siŵr. Dere 'ma, dw i ddim wedi dy weld di ers bore Llun. Ga i sws arall?
- Enid:** Hei - gan bwyll!
- Geraint:** Oes rhywbeth yn dy boeni di, Enid?
- Enid:** Nac oes! Jest ... dw i ddim wedi dy weld di mor rhamantus â hyn ers amser.

Geirfa

codi - *(to) pick up*
gweld eisiau - *(to) miss*
unig - *lonely*
newydd ffonio - *just phoned*
atgoffa - *(to) remind*
o'r blaen - *before*
gan bwyll - *steady on*

Sgript Sain 2 - Audio Script 2

Miss James: Bore da. Deintyddfa Mr Thomas. Sut galla i eich helpu chi? Helo? Dych chi yn fy nghlywed i? Mae'r lein yn wael iawn. Wnewch chi fy ffonio i yn ôl?

.....

Miss James: Bore da. Deintyddfa Mr Thomas. Sut galla i eich helpu chi?

Mr Davies: O bore da. Dw i wedi gwneud apwyntiad i weld Mr Thomas ond dw i wedi anghofio pryd mae e.

Miss James: O'r gorau. Beth yw eich enw chi os gwelwch yn dda?

Mr Davies: Mr Edward Davies. O Heol y Drain.

Miss James: Dyma ni! Mr Davies - mae eich apwyntiad chi'r bore ma. Am hanner awr wedi unarddeg.

Mr Davies: O gret! Dyna lwc i fi eich ffonio chi'r bore ma! Gwela i chi am hanner awr wedi unarddeg.

Miss James: O'r gorau. Hwyl fawr.

.....
Miss James: Bore da. Deintyddfa Mr Thomas. Sut galla i eich helpu chi?

Miss Hughes: O bore da. Glenda sy yna?

Miss James: Ie Miss Hughes. Sut dych chi?

Miss Hughes: O dw i'n iawn diolch Glenda. Mae'n ddrwg gyda fi dy boeni di ond dyw fy mam ddim yn gallu dod i weld Mr Thomas y bore ma. Mae hi'n sâl.

Miss James: O mae'n flin gyda fi glywed hynny.

Miss Hughes: Mae'r doctor eisiau ei gweld hi bore ma.

Miss James: Peidiwch â phoeni, Miss Hughes. Dych chi eisiau apwyntiad dydd Mawrth nesa am ddau o'r gloch?

Miss Hughes: Os gwelwch yn dda. Wnei di ei ffonio hi y diwrnod cynt? Bydd angen ei hatgoffa hi.

Miss James: Gwnaf. Wrth gwrs.

Miss Hughes: O diolch. Bydd mam yn dy weld di a Mr Thomas yr wythnos nesa. Hwyl fawr!

Miss James: Hwyl fawr!

Geirfa

deintyddfa - *dentist's surgery*

apwyntiad - *appointment*

y diwrnod cynt - *the previous day*

Atebion - Answers

Task sain 1 / Audio task 1

Pam roedd Geraint yn hwyr? Roedd y trê'n a'r tacsî yn hwyr.

Pam dydy Enid ddim wedi gweld ei eisïau fe? Mae hi wedi bod yn rhy brysur.

Pryd mae Geraint yn chwarae golff? Mae e'n chwarae nos yfory.

Pryd mae cyfarfod nesa Geraint? Mae'r cyfarfod bore fory.

Beth sy'n wahanol am Geraint, yn ôl Enid? Dydy e ddim mor rhamantus fel arfer.

Task sain 2 / Audio task 2

	Person 1	Person 2
Pwy sy'n ffonio?	Mr Davies	Miss Hughes
Pam?	Mae e wedi anghofio pryd mae ei apwyntiad e.	Dyw ei mam hi ddim yn gallu dod i weld Mr Thomas. Mae hi'n sâl.
Pryd mae'r apwyntiad?	Heddiw / y bore 'ma	i) bore 'ma ii) dydd Mawrth nesa nawr
Faint o'r gloch mae'r apwyntiad?	Hanner awr wedi 11	2 o'r gloch